Rhif 202 AWST - MEDI 2016

AM DDIM

Gwyliedydd

Synod cymru

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD



Plant y Mans

Dyma lun hyfryd o Rebekah ac Esther Patron Bell gyda'u tad a'u mam. A hwythau ar fin symud i Gylchdaith newydd, mae'r ddwy yn rhannu ychydig o'u hanes â ni. Boed bendith arnoch fel teulu a diolch am eich gwasanaeth yng Ngheredigion.

Helo! Rebekah ydw i (fi sy'n eistedd ar lin Dadi), a dwi'n 7 oed, a dyma fy chwaer fach.
ESTHER dwi, a dwi'n BEDAIR, a hefo Mami.
Rydym ni'n byw yn Llanbedr Pont Steffan, ac yn mynd i Ysgol Bro Pedr.
Dim ond yn y bora dwi'n mynd.
Rydym ni'n hoffi chwarae hefo Logo a hefo ein dolis, a gwneud lot o sŵn.
Gwaith Dadi ydy cymryd gwasanaethau a mynd i gyfarfodydd.
Wnaeth Dadi ddod i'r ysgol i wneud gwasanaeth.
Rydym ni yn symud cyn bo hir...
...i dŷ newydd, a stafell wely newydd i fi...
...i Winsford, yn Lloegr. Rydym yn mwynhau byw yn Llanbedr. Ond hefyd yn edrych ymlaen i symud.

CYSTADLEUAETH I'R DARLLENWYR

Pa un o blith y geiriau yn y rhestr sydd **ddim yn** y chwilair? Anfonwch eich ateb at Ffion neu Robin (drwy e-bost, post neu ffôn) **erbyn 1 Medi** a bydd yr ateb cywir cyntaf a dynnir o het yn ennill Tedi'r Gwyliedydd. Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad er mwyn inni wybod i ble i anfon Tedi! Diolch yn fawr iawn i Margaret Morgan am baratoi'r chwilair.



Y Samariad Trugarog (Luc 10: 25-37)

Y	M	E	L	A	S	W	R	E	J	L	G
C	D	Y	Th	Y	A	E	L	Dd	E	I	O
A	I	R	U	E	M	N	A	I	R	A	D
U	O	Ll	F	Ch	A	G	Th	G	I	F	Y
A	R	I	N	J	R	S	E	R	Ch	I	M
R	M	U	S	E	I	Y	A	L	O	N	Y
G	G	Y	F	R	A	I	Th	F	E	A	C
L	E	F	I	A	D	F	E	Ng	T	Dd	E
W	A	N	Dd	O	CH	G	O	S	E	R	U
Y	S	G	Y	M	T	W	R	L	U	O	L
Dd	U	N	C	D	A	I	R	I	E	Ff	O
R	Ll	A	D	R	O	N	E	Y	G	W	I

ANIFAIL ARGLWYDd ARIAN AThRO
GYFRAITh CYMYDOG DYN
FfORDd GWARIO GWIN IESU
JERIChO JERWSALEM LEFIAD
LlADRON OFfEIRIAD OLEW
SAMARIAD YMGELEDdU

Mae un gair yn y rhestr **nad** yw'n ymddangos yn y chwilair.
Allwch chi gael hyd iddo?

Gwyliedydd

CYFNODOLYN SYNOD CYMRU
YR EGLWYS FETHODISTAIDD
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

RHIF 202

AWST–MEDI 2016

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn drwy'r post £4.

BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL

Golygyddion:

ROBIN JONES
LLYS ALAW, 18 STÂD ERYRI
BETHEL, CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn: 01248 670140
symudol: 07780869907
e-bost:
robinbethel@tiscali.co.uk

FFION ROWLINSON
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA, GWYNEDD LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
e-bost:
ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

Croeso i chi anfon at Robin neu Ffion

DYDDIAD CAU:
1 MEDI, 2016

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i
"**Yr Eglwys Fethodistaidd – Talaith Cymru**"

Argraffwyr:
Gwasg y Bwthyn, Caernarfon (01286) 672018



Llun y clawr:
Gwna fi fel pren planedig
gan Kittikun Atsawintarangkul

OR GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig JENNIFER HURD

"Mae'r oedfa drosodd, mae'r gwasanaeth i ddechrau." (Paul Sheppy, *Gweddïau ar gyfer Mileniwm Newydd*, Cytûn)

Ydych chi wedi cael eich gollwng o'r capel efo'r geiriau yna? Efallai fod y gair mwys yn codi gwên ond mae'r dywediad yn ein hatgoffa ni o'n galwad fel dilynwyr Iesu Grist. Awn i'r oedfa – y gwasanaeth – i addoli Duw ac i gryfhau ein perthynas ag ef ac â'n cyd-addolwyr, yna cawn ein hanfon allan i wasanaethu'r byd y rhoddodd Duw gymaint iddo drwy ei Fab, Iesu Grist. Gwasanaeth oedd pwrpas Duw yng Nghrist – "na ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer" (Mathew 20:28). Fe geisiwn ninnau, ddilynwyr Iesu, fyw yn ôl ei batrwm, er mwyn i'w waith o sefydlu teyrnas Dduw barhau. Mae gwasanaeth yn allweddol i'r bywyd Cristnogol, megis ym mywyd Iesu ei hunan. O'r oedfa, byddwn yn mynd allan i wasanaeth!

Thema 2016-17

Pan fydd y flwyddyn gyfundebol newydd yn dechrau i'r Eglwys Fethodistaidd ar y cyntaf o Fedi (Blwyddyn Newydd Dda, gyda llaw!), bydd Synod Cymru'n dechrau canolbwyntio ar thema arall o blith pedair blaenoriaeth "Ein Galwad". Buom yn canolbwyntio ar ddysgu a gofalu (2014-15), ac ar addoli (2015-16), ac yn ystod 2016-17 byddwn yn ceisio datblygu ein galwad trwy ganolbwyntio ar drydedd thema sef gwasanaethu.

Efallai y byddwch chi'n meddwl, "Dwi'n gwasanaethu drwy'r dydd, bob dydd! Dwi'n gwneud llawer o bethau er lles pobl eraill. Beth arall alla i ei wneud? " Dydych chi ar eich pen eich hun! Dwi'n ymwybodol fod llawer o aelodau'r Synod yn byw eu bywydau Cristnogol yn ffyddlon iawn, yn gofalu am eu cymdogion, yn codi arian at achosion da di-rif, yn gwirfoddoli yn eu cymunedau mewn cymaint o wahanol ffyrdd, ac wrth gwrs, yn gwasanaethu eglwys Iesu Grist er mwyn i'r oedfaon gael eu cynnal gan gryfhau'r gwasanaeth hwn.

Ond, yn ogystal â'r hyn a wnawn fel unigolion, beth am inni eleni ystyried beth rydym yn ei wneud i wasanaethu pobl eraill **efo'n gilydd**. Pwy sy'n deall anghenion cymuned fel y rhai sy'n byw ynddi? **Mae ein cynulleidfaoedd ni mewn sefyllfa dda i ddatblygu ein galwad i wasanaethu**, boed hynny trwy agor y drysau yn ystod yr wythnos a berwi tegell i groesawu'r rhai sy'n unig yn y gymuned; neu drwy fynd allan efo bagiau plastig du, menig a ffyn codi sbwriel i dacluso'r strydoedd er lles y preswylwyr; neu drwy wneud cacennau neu duswau bach o flodau efo'n gilydd i'w rhoi i'r cymdogion neu i bobl sy'n mynd heibio fel anrheg er mwyn rhoi gwên ar eu hwynebau. Pwy a ŵyr na fydd rhywun yn gofyn, "Pam rydych chi'n gwneud hyn?" a hynny'n rhoi cyfle i ddweud gair am yr Un a daeth i'n gwasanaethu ni "ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer", ac i estyn gwahoddiad i wasanaeth o'r math arall!

Adolygu ein Bywyd fel Synod

Fel pobl Dduw a dilynwyr Iesu Grist, ein dymuniad yw gwneud ein gorau drosto Ef a roddodd ei orau drosom ni. Rydym am ei wasanaethu'n well bob dydd. Dyna pam y byddwn yn dweud ein gweddïau o gyffes, gan ein harchwilio ein hunain a gofyn i Dduw ein helpu yn ei ras a'i gariad. Math o adolygiad personol yw hynny; da o beth yw gwneud hynny fel cymunedau, yn ogystal. Dyna pam y cytunodd cyfarfod y Synod, fis Ebrill diwethaf, ein bod am adolygu ein bywyd gyda'n gilydd fel Synod a Chylchdaith Cymru, yn ein capeli a'n Hardaloedd, yn ein pwyllgorau a'n cyfarfodydd a'n cynghorau yn ystod y flwyddyn gyfundebol newydd. Erbyn cyfarfod y Synod yn 2017, gobeithio y byddwn wedi casglu ymatebion a llunio dogfen drafod a fydd ar gael ar wefan y Synod (www.synodcymru.org.uk) ac o ffynonellau eraill, er mwyn ceisio canfod lle mae Duw yn galw ni, ac ym mha ffyrdd, i'w wasanaethu'n well. Pam rydym ni'n bodoli fel rhan o eglwys Iesu Grist? Nid yn unig i geisio cadw'n capeli ar agor, neu i gyfarfod ar y Sul, neu hyd yn oed i ddarparu oedfaon yn Gymraeg, er mor werthfawr yw'r pethau hyn. **Rydym yma i wasanaethu Duw, trwy wasanaethu pobl eraill**. Ac wrth i ni fendithio eraill, bydd Duw yn ein bendithio ni.

Boed i Dduw fendithio'r Parchedig Marty Presdee sy'n dod ar Fedi 1af i wasanaethu yng Nghylchdaith Cymru fel Arweinydd Ardal Ceredigion, a bendith Duw fo ar y Diacon Stephen Roe yntau, sy'n symud i wasanaethu yn Ardaloedd De Gwynedd a Glannau Meirion a Dyfi. Cydweithiwn er mwyn teyrnas Dduw!

CNOI CIL

gan GWYNDAF ROBERTS

Mae'n bur debyg bod llawer o ddarllenwyr y *Gwyliedydd* wedi cael cyfle i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Er mai yn yr adeilad ysblennydd ar Allt Penglais y mae'r llyfrgell bellach, roedd y cartref cyntaf a agorwyd yn 1909 mewn man arall yn y dref. Symudodd y llyfrgell i'r safle

presennol yn 1916 a thros y blynyddoedd ychwanegwyd adeiladau eraill at yr un gwreiddiol. O dan Siarter Brenhinol 1907 prif amcan y llyfrgell yw cadw a chasglu llawysgrifau, llyfrau a darluniau sy'n ymwneud â Chymru a'r gwledydd Celtaidd. Ond bellach ychwanegwyd recordiau sain a thapiau fideo a ffilmiau hefyd. Prif drysorau'r llyfrgell yw'r llawysgrifau sy'n cynnwys llenyddiaeth gynharaf y Gymraeg ynghyd â thestunau hanesyddol y genedl. Yn 1944 daeth dogfennau'r Eglwys yng Nghymru i Aberystwyth gan agor maes ymchwil diddorol dros ben i haneswyr a rhai sy'n ymchwilio i achau teuluol. Mae mapiau degwm a'r arolwg ordnans ar gael i'r cyhoedd i'w harchwilio ac mae gwahoddiad wedi'i estyn am wirfoddolwyr i gofrestru enwau caeau Cymru ar y we. Ymhlith trysorau eraill y mae casgliadau o ffotograffau a phapurau personol rhai o enwogion ein gwlad.

Yn 1911 daeth Deddf Hawlfraint i fodolaeth sy'n rhoi hawl i'r llyfrgell gael copi rhad ac am ddim o bob llyfr a chylchgrawn a gyhoeddir yn y Deyrnas Unedig. Mae'r un hawl gan y Llyfrgell Brydeinig ac yn ystod y cyfnod y bûm yn ysgrifennydd y Llyfrfa, fe fyddai llythyrau digon cas yn dod o'r ddau le os digwyddai'r papur fethu â'u cyrraedd. Nid yw'n syndod deall bod dros 4 miliwn o lyfrau yn Aberystwyth bellach heb sôn am y deunyddiau eraill. Mae'n arswydus meddwl nad yw bywydau unrhyw un ohonom yn ddigon hir i ddarllen ac astudio'r cyfan a geir yno.

Efallai mai ffordd arall o feddwl am bwrpas y Llyfrgell Genedlaethol yw fel man i ddiogelu geiriau ac ieithoedd, gyda'r Gymraeg yn benodol. Wedi'r cyfan mae geiriau yn sylfaenol i'n bodolaeth fel pobl a hebddynt hwy ni fyddai trefn na phatrwm i fywyd. Mae geiriau yn sylfaenol i'r cyfan a wneir ac a feddylir gennym. Yn wir o ddarllen geiriau cyntaf Genesis fe welwn mai trwy air Duw y daeth y cyfan a welir gennym i fod. Y Gair neu'r Logos yw testun agoriad syfrdanol yr efengyl yn ôl Ioan. Roedd y Gair, meddai Ioan, yn bodoli cyn bod daear na'r bydysawdau. I'r Groegiaid golygai'r gair Logos y rheswm a'r egwyddorion a roddai ystyr i bopeth, sef i bob pwrpas yr hyn a ddaw oddi wrth Dduw. Coron y cyfan yw'r dywediad *"a Duw oedd y Gair"* a'r ffaith bod Iesu mab Duw wedi dod o dragwyddoldeb i frwydro yn erbyn pwerau drygioni a thywyllwch ac i sicrhau achubiaeth i bawb.

Cyhoeddi'r Gair hwn i'n cenhedlaeth ni yw tasg barhaol yr Eglwys Gristnogol. Nid yw'n dasg hawdd (os bu erioed) gan nad yw'r Beibl bellach yn llyfr a ddarllenir gan drwch y boblogaeth. Ysywaeth aeth heibio'r amser pan oedd pobl yn ystyried y Beibl yn awdurdod safadwy ar bob agwedd ar fywyd. Yn yr hinsawdd hon, wrth i'r Eglwys Gristnogol dderbyn bod syniadau ac ieithwedd y Beibl y tu hwnt i grebwyll a deall trwch y boblogaeth, da yw gweld bod rhai yn ein plith yn mentro i gyflwyno neges yr Efengyl trwy gyhoeddi cylchgrawn newydd ar y We o dan yr enw ***Agora***. Cristnogaeth 21 sydd tu cefn i'r fenter ac mae rhifynnau Ebrill, Mai a Mehefin eisoes ar gael ar y We. Gall y sawl sydd am gopi papur lawrlwytho'r cylchgrawn o safle Cristnogaeth 21.

Dylid rhybuddio'r sawl sydd am droi at ***Agora*** nad cylchgrawn ar gyfer yr uniongred yw ond llais sydd am herio'r canonau crefyddol traddodiadol ac yn galw am drafodaeth grefyddol newydd a chwyldroadol. Dyma sut mae'r golygydd Enid R Morgan yn gosod yr her yn rhifyn Ebrill. '*A ninnau Gristnogion wedi colli'r hawl i orchymyn a deddfu, be wnawn ni i godi amgenach pabell pan yw'r cyfundrefnau eglwysig yn glynu wrth ieithwedd y bymthegfed ganrif a ninnau, er gwell neu er gwaeth, yn meddwl sut y gall Iesu ein clywed un ganrif ar hugain ers ei groeshoelio gan rymoedd crefydd ac ymherodraeth.*

Mae ***Agora*** yn barod i herio ein dealltwriaeth o'r Ysgrythurau a da o beth fyddai i'r ceidwadol yn ein plith fentro i ddarllen pregeth y Pastor Dawn Hutchinson, Toronto, sydd o dras Gymreig, i weld a yw cynnwys ***Agora*** wrth eu dant. Mae'r bregeth ar dudalen-



Yr Agora yn Athen

nau 6-8 o ***Agora*** mis Mehefin ac yn seiliedig ar atgyfodi Tabitha yn Actau 9, 36-41. Mae'r bregeth, fel gweddill ***Agora***, yn fentrus a heriol.

Y dydd o'r blaen gwelais lyfr ar gyfer plant gyda'r geiriau gogleisiol hyn ar ei gefn: *Peidiwch da chi â darllen y llyfr hwn*. Efallai mai dyna fydd eich cyngor chi ar ôl darllen ***Agora***. Os felly fe fyddaf fi a llawer un arall am wybod gennych ba ffordd arall sydd ar gael i ddeffro Cristnogion Cymru o'u trwmgwsg cysurus parhaol. Mae'r Gair wedi'i gaethiwo gennym; mae'n hen bryd inni ei ryddhau unwaith eto i weithio yn ein plith.

BENDITHION

Daw bendithion mewn llawer maint
a ffurf.
Gallant fod yn flodau neu swp o
rawnwin.
I'r galarus, gallai fod yn ymweliad.
I gi, gallai fod yn bêl.
I'r tlawd, gallai fod yn anrheg.
I'r sawl sy'n gaeth i'r tŷ, gallai fod yn
gludiant.
I'r blinedig, gallai fod yn seibiant.
I'r unig, gallai fod yn deisen.
Dduw annwyl, cynorthwya ni os
gweli di'n dda
i fendithio pob un yn d'enw di,
gartref, yn y gwaith, yn yr ysgol, wrth
chwarae –
gyda'n gilydd, gadewch i ni lonni
diwrnod rhywun.
Amen.

(drwy garedigrwydd 'Roots for Churches')

RHODDION

Diolchwn yn gynnes unwaith eto am y tanysgrifiadau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r ***Gwyliedydd***.

	£ c
Mrs Olwen Whomsley, Aberhonddu	30-00
Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail, er cof am Mr Gwyn Peris Jones a Mrs Ceinwen Jones, Penrhosgarnedd, Bangor	29-00
Gwerthiant nwyddau'r Dathlu	38-88
Mrs Mercy Jones, Rhuddlan...	30-00
Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd, 2016	400-00

Cyfanswm Mai/Mehefin 2016: £527-88

Cyfanswm o 1/9/15 hyd 3/7/16: £1892-88

Diolch am rodd o £50 gan gapel Shiloh, Tregarth, at Weithredu dros Blant.
Marc a Margaret Morgan

HOLI'R PANEL

Diolch i William H. Owen am gynnig dau gwestiwn inni ar gyfer y rhifyn hwn: y naill (yn amserol iawn) yn cyfeirio at bêl-droedwyr, a'r llall yn cyffwrdd â mater y mae pawb ohonom yn siŵr o fod wedi pendroni amdano. Rydym yn ddiolchgar dros ben i'r pedwar sydd wedi bod mor garedig â rhannu eu meddyliau ynglŷn â'r cwestiynau.

Os gwelwch chi'n dda, cysylltwch â'r Gwyliedydd er mwyn inni barhau â'r sgwrs a thrafod rhagor o gwestiynau (mae chi yn golygu chi!!).

1. A oes cyfiawnhad moesol i dalu cyflog mor aruthrol i chwaraewyr pêl-droed?

Ateb Maryl

Nac oes. Maent yn ennill mwy mewn wythnos nag y mae rhai, sy'n gweithio'n galed ac sydd wedi astudio am flynyddoedd, yn ei ennill mewn oes. Ar ben hynny maent yn derbyn dillad/ esgidiau gan gwmnïau sy'n eu noddi.

Dadl rhai yw fod eu gyrfa yn fyr ond maent yn symud ymlaen i fod yn hyfforddwyr / rheolwyr neu'n gweithio yn y cyfryngau fel sylwebyddion. Na, does dim angen y fath symiau enfawr ar neb.

Maryl Rees

Ateb Marc

Fe ddywedir yn aml fod chwaraewyr pêl-droed yn cael eu talu symiau afreolus am redeg o gwmpas cae tra'n ceisio cael swigen sy'n llawn aer trwy ffrâm wedi ei gwneud o bren.

All fod hyn yn wir wrth sôn am y rheini sy'n cael eu hystyried ar ben eu gêm? Mae un chwaraewr yn cael ei dalu rhyw swm penodol ond yna daw un sy'n well nag e ac felly rhaid talu mwy i'r ail un. Hyn sy'n arwain at y cyflogau gwallgo.

Efallai fod rhai yn derbyn cyflogau sy'n cael eu hystyried yn afreolus ond be maent yn ei wneud â'r arian sy'n bwysig – ai ei wastraffu ynteu ei fuddsoddi i'r dyfodol. Gall gyrfa pêl-droediwr ddod i ben mewn eiliad, un cam gwael neu dacl drwg. Dyw'r cyfryngau ddim yn helpu delwedd y chwaraewyr yma. Nid yw chwaraewr sy'n cynorthwyo gydag elusennau neu anfon arian i gynorthwyo'i deulu yn gwerthu papurau newydd ond mae hanesion am rai sy'n gwastraffu eu harian ar nosweithiau allan, partïon, tai crand a cheir moethus yn eu gwerthu!

Felly, yr ateb i'r cwestiwn, "A oes cyfiawnhad moesol i dalu cyflog mor aruthrol i chwaraewyr pêl-droed?" yw – mae llawer yn derbyn cyflogau mawr ond, gan ategu'r hyn ddywedwyd ynghynt, beth maent yn ei wneud gyda'r arian sy'n bwysig.

Y Parchedig Marc Morgan

2. Sut mae perswadio ieuenctid fod gwerth i gapel ac eglwys?

Ateb Jennie

Cwestiwn da! Ond mae gen i broblem efo'r geiriau "perswadio" ac "ieuenctid", ac efo "capel ac eglwys" hefyd - am resymau gwahanol. Dydw i ddim yn teimlo'n gyfforddus efo pwyslais ar bobl ifanc. Maen nhw'n bwysig, wrth gwrs, ond mae pawb yn bwysig i Dduw. Rydyn ni'n byw mewn cymdeithas sy'n heneiddio, ac mae cyfran y rhai hŷn yn uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Mae'r to hŷn yn faes cenhadu, yn ogystal ag ieuenctid! Dydw i ddim yn credu y dylen ni wneud capel ac eglwys yn flaenoriaeth yn ein gwaith cenhadu, chwaith. Ein blaenoriaeth yw cyflwyno pobl i berthynas fyw efo Iesu er mwyn iddyn nhw, trwyddo, dderbyn bywyd yn ei holl gyflawnder. Y ffordd orau at hynny, dwi'n credu, yw trwy berthynas efo pobl eraill sy'n nabod Iesu. Felly mae'r eglwys yn bwysig fel pobl Duw, nid fel capel neu eglwys ynddi ei hunan.

Ydyn ni yn y busnes o berswadio pobl? Mae 'na gangen o ddiwinyddiaeth sy'n ymwneud â hynny, sef apologiaeth, ond disgyblaeth academaidd yw hi, yn y bôn, a dwi ddim ei gweld hi'n denu pobl ifanc, yn enwedig, at Iesu. Mae perswadio yn swnio'n rhy orfodol i mi. Yn fy mhrofiad i, mae Duw, yn ei ras, yn ein gwahodd ni, nid yn ein perswadio ni. Felly, os ydyn ni am gyflwyno pobl o unrhyw oedran i Iesu er mwyn iddyn nhw dderbyn gwahoddiad Duw i berthynas fyw efo fo, mae'n dod trwy berthynas efo pobl sy'n ei nabod o eu hunain. Dyna ystyr y dywediad Saesneg, "Faith is something that's caught, not taught". Os ydyn ni am berswadio pobl, byddwn yn eu perswadio nhw drwy gariad. Pan fydd pob capel ac eglwys yn gymuned yn seiliedig ar gariad, bydd eu gwerth yn cael ei weld.

Y Parchedig Jennie Hurd

Ateb Delyth

Gyda phobl ifanc yn mynd trwy gyfnod yn ei bywydau pan maen nhw'n datblygu i feddwl yn annibynnol, tydw i ddim yn meddwl y gellir perswadio pobl ifanc fod gwerth i ddim byd. Mae ceisio eu gorfodi neu eu perswadio i feddwl mewn unrhyw ffordd arbennig, boed mewn gwleidyddiaeth, crefydd neu mewn chwaeth at bethau megis cerddoriaeth, llenyddiaeth neu ffilmiau yn fwy tebygol o ennyn canlyniad sy'n groes i'r hyn a fwriadwyd! Mae'n rhaid iddyn nhw ddod i'w casgliadau drostynt eu hunain. Wedi dweud hyn, tydw i ddim yn awgrymu o gwbl nad ydym i wneud dim amdano chwaith! Ein rôl ni yw sicrhau yn gyntaf eu bod yn cael eu derbyn a'u caru fel rhan o deulu'r eglwys, gan wneud pob ymdrech i ddangos bod ein perthynas ni â nhw'n adlewyrchu cariad diamod Duw tuag atom yn Iesu. Trwy hyn, gallwn eu helpu i ddarganfod cariad Duw drostynt eu hunain, eu gwerth yng Nghrist a'u lle ym mywyd yr eglwys a lle'r eglwys yn eu bywyd nhw. Mae'r math o groeso a roddwn iddynt (mae bwyd yn allweddol!) a'r cyfle a roir iddynt gyfrannu i fywyd yr eglwys, yn ei haddoliad a'r ffordd y mae'n gweithredu, yn hollbwysig i ddangos iddynt mai nhw yw'r eglwys fel pawb arall. A phan fyddant yn darganfod hynny drostynt eu hunain, yna byddant wedi darganfod fod gwerth i gapel ac eglwys.

Delyth Wyn Davies

CAPEL NI
YN EGLWYS IESU

Cymanfa Llanfyllin

Tabernacl, Llanfyllin

DRWS AGORED
Y siaradwr gwadd a groesawyd ar Fai 4ydd oedd Mr Huw Ellis, cyn bennaeth poblogaidd Ysgol Gynradd Llanfyllin. Ers iddo newid gyrfa mae Huw yn gweithio gydag elusen addysgol TLG - 'Transforming Lives for Good'. Dechreuwyd yr elusen yn 1998 mewn eglwys yn Bradford ac erbyn hyn mai ganddi ganolfannau eglwysig ar draws y wlad i gyd. Pan ddechreuodd, canolbwyntiai'r elusen ar ddarparu cefnogaeth addysgol a chymorth cwnsela ar gyfer pobl ifanc oedd â phroblemau personol ac ymddygiadol a oedd wedi peri iddynt gael eu heithrio o'r ysgol. Erbyn hyn mae'r gwasanaeth hefyd yn helpu ysgolion cynradd, lle mae plentyn unigol, trwy gydweithrediad â'r ysgol a'r teulu, yn cael hyfforddwr sy'n gweithio gydag ef neu hi am un awr bob wythnos. Mae'r sylw personol hwn yn gwneud gwahaniaeth mawr i gyraeddiadau addysgol ac ymddygiad y plant. Bellach mae Huw yn gyfrifol am adeiladu rhwydwaith o ganolfannau tebyg yng Nghymru ac mae'n falch o'r gefnogaeth a ddangosir i'r gwaith. Roedd hon yn noson wirioneddol ysbrydoledig a diolchwyd yn gynnes iawn i Huw gan y Cadeirydd, Rhoswen Charles.

Yn y cyfarfod hwn hefyd, dymunwyd yn dda i Betty Ellis sydd bellach yn ôl yn Llwynteg ac i Llywela Roberts, sydd yn aros am lawdriniaeth. Cydymdeimlwyd ag Enid Morris a'i theulu wedi deall am ddirywiad yn iechyd ei brawd yng nghyfraith, John Roberts. Hefyd cydymdeimlwyd â theulu'r ddiweddar Elizabeth Jones, Coedarle, ac â'r Parchedig Sue Lawler, cyn Weinidog y Tabernacl a oedd wedi colli ei mam yn ddiweddar ar ôl gwaeledd hir. Cafwyd munud o dawelwch i gofio am bawb sydd yn dioddef neu mewn trafferthion. Llongyfarchwyd Olwen a Gwyn Jones ar enedigaeth ŵyr yn Awstralia, sef mab bychan i'w mab, Meirion a'i wraig, Ellie.

CYMANFA UNDEBOL LLANFYLLIN
Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng nghapel y Tabernacl, Llanfyllin. Yr arweinydd oedd Miss Rhonwen Jones (arweinydd Côr Meibion Penybontfawr) a chafwyd cymanfa lwyddiannus gyda'r pedwar llais (SATB) i'w clywed yn soniarus. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd tystysgrifau i'r plant a rhai o'r ieuenctid am eu gwaith o gasglu arian at y Genhadaeth, sef cyfanswm o £458.50 sydd yn swm rhagorol. Arweiniwyd yr oedfa gan y gweinidog, y Parchedig Gwyndaf Richards a'r organydd oedd Mrs Eldrydd Jones.

GWELLHAD BUAN
Dymunwn adferiad a gwellhad i Eurwen Jenkins ac i Llywela Roberts

Gohebyddion – Robin Hughes a Rhoswen Charles

Pontrobert

GWELLHAD
Dymunwn yn dda i Hywel, gŵr Eirlys Edwards, Brynawel, a fu yn Ysbyty'r Amwythig.

LLONGYFARCHIADAU
Ddechrau mis Mehefin, fe ddathlodd Mair a Gwyn Jones, Nantlle, ben-blwydd Priodas Platinwm sef 70 o flynyddoedd. Bu Gwyn yn Ysbyty'r Amwythig am gyfnod ond erbyn hyn ymgartrefodd yng Nghartref Yr Allt yn y Trallwm. Da dweud ei fod yn ddigon da i fwynhau'r dathliad gyda'i deulu. Anfonwn ein cofion hefyd at eu hŵyr Bryn sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbytai Birmingham a Telford – pob dymuniad da am wellhad iddo.

Gohebydd – Margaret Blainey

Pendref, Yr Wyddgrug

DYMUNIADAU GORAU
Ar ôl treulio cyfnodau mewn ysbytai, aeth dwy o'n ffyddloniaid sef Miss Enid Jones a Mrs Vera Williams i gartrefi gofal heb fod ymhell o'r Wyddgrug. Mae'n golled ar eu hôl ym Mhendref ond dymunwn iddynt fendith yn eu cartrefi newydd.

GWAELEDD
Aeth chwaer i Mrs Myra Parry (ein Trysorydd) i ysbyty yn Wolverhampton i gael llawdriniaeth ac rydym yn hynod o falch ei bod yn gwella'n raddol. Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n dymuniadau da iddi am lwyr wellhad.

Deallwn hefyd nad yw Gwyndaf (mab Myra) sy'n byw ym Mangor wedi bod yn dda efo'i gefn; anfonwn iddo yntau ein dymuniadau gorau am wellhad buan.

CYD-ADDOLI
Ers pan ymddeolodd y Parchedig Graham Floyd ychydig flynyddoedd yn ôl, gwelsom y ddwy gynulleidfa, Pendref a Bethel (Annibynwyr) yn closio at ei gilydd. Diolch i'r ddau Ysgrifennydd, Richard Francis Jones a Gwilym Antur Edwards, am baratoi'r Plan eleni, a threfnu bod y ddwy eglwys o hyn ymlaen yn cyfarfod fel un gynulleidfa bob Sul. Da gweld dwy gynulleidfa yn ymuno i addoli Duw a hyrwyddo gwaith yr Efengyl.

Gohebydd – Y Parchedig J. Bryn Jones

Ebeneser, Eglwysbach

CYDYMDEIMLO
Cydymdeimlwn â Meira Roberts a gollodd ei mam yn ddiweddar.

CYNHEBRWNG
Ar y trydydd o Fai cynhaliwyd angladd Gwynfor M. Williams o dan arweiniad y Parchedig R. Ifor Jones. Talwyd teyrnged iddo gan ei nai, Dewi. Cydymdeimlwn â'i frawd Wil a'r teulu oll.

Gohebydd – Charles Crapper

Salem, Rhyd y Foel

TAITH I FECSICO
Dros wyliau'r Pasg, aeth Debbie Roberts â grŵp o bobl ifanc o'r ardal i Cuernavaca ym Mecsico. Roedd y grŵp yn cynnwys disgyblion a chyn-ddisgyblion o Ysgol y Gogarth, Llandudno, ac Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn. Buont yn aros yng nghanolfan y Geidiaid, Our Cabaña, ac yn gwneud gwaith gwirfoddol

gyda phlant anabl a difreintiedig. Yn ogystal â hynny, buont yn dysgu am ddiwylliant y wlad ac yn dringo 'pyramid yr haul' yn Teotihuacan.

GENEDIGAETH
Llongyfarchiadau i Bethan a Matthew Inskip ar enedigaeth mab bach sef Matthew Thomas, ŵyr i Glenys a Mike Thomas.

TAITH I LUNDAIN
Ddydd Sul Mehefin 26ain fe drefnodd Miss Kathleen Williams daith i Lundain i aelodau a chyfeillion Salem. Ymweld â Windsor yn y prynhawn ac yna draw i Lundain i aros y noson. Fore Llun ymlaen â ni i San Steffan lle daeth y Parchedig Arglwydd Roger Roberts i'n cyfarfod a'n harwain o amgylch Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Tra oeddem yno ymysg y llu o ymwelwyr eraill awgrymodd Roger ein bod yn canu ein hanthem genedlaethol – braidd yn sigledig ar y dechrau ond yna pawb yn mynd i hwyl a'r lleisiau yn atseinio yn yr adeilad hanesyddol yma. Yn y prynhawn cawsom gipolwg ar rai llefydd amlwg yn y ddinas cyn troi am adref a phawb wedi mwynhau yn fawr.

Gohebydd – Siân Price

Eglwys Unedig Colwyn

NEWYDDION DA
Llongyfarchiadau i Arfon a Gwen Williams sydd yn nain a taid unwaith eto. Ganwyd Lois Angharad i Dafydd a Mari ar Fai 31. Cafodd Arfon a Gwen reswm arall i ddathlu yn ddiweddar hefyd, pan enillodd eu hŵyr Iolo yr ail wobr am lefaru (Blwyddyn 3 a 4) yn Eisteddfod yr Urdd yn y Fflint.

COED CRAIG
Cynhaliwyd Ffair Ardd flynyddol Coed Craig yn Eglwys Fethodistaidd San Siôr, Llandrillo yn Rhos, ar Fehefin 18. Daeth nifer dda i gefnogi'r achlysur a chodwyd swm sylweddol iawn sef £1100.

CLEIFION
Fel bob amser, rydym yn meddwl am ein cleifion oll ac yn anfon ein cofion caredig atynt.

Gohebydd – Rhiannon Jones

Pendref, Dinbych

DAL I OBEITHIO
Daliwn i ddisgwyl am ganiatâd i wneud y gwaith ar y Capel a'r Tŷ Capel - mae'n deg dweud fod y sefyllfa'n dal i fod yn un rhwystredig. Er hynny mae yna lygedyn o olau yn y pellter. Parhawn felly i addoli yn y Festri, ac i gyd-addoli ag aelodau Peniel yn Ninbych ac yn Llanelwy. Cawsom ein harwain mewn addoliad gan y Parchedig Cledwyn Parry a hefyd Royce Warner a David Barker Jones ac fe gynhaliwyd cyfarfodydd gweddi ben-

dithiol dan arweiniad aelodau'r ddwy eglwys.

DYMUNIADAU GORAU
Rydym yn falch fod Mrs Rhiannon Rogers wedi gwella ac wedi symud i Gartref Dolwen.

PEN-BLWYDD HAPUS
Dymunwn ben-blwydd hapus i'r Parchedig Cledwyn Parry.

YMDDEOL
Dymunwn ymddeoliad hapus i Medwyn Jones ar ôl un mlynedd ar bymtheg fel Clerc Tref Dinbych.

CYDYMDEIMLO
Cydymdeimlwn a Medwyn a Mary Jones a'r teulu ar golli brawd a brawd yng nghyfraith yn ddiweddar, sef Idris Jones. Daeth rhieni Idris i fyw yn Nhŷ Capel Pendref yn 1946 a chafodd ei dderbyn yn aelod ym Mhendref tua 1947.

Gohebwyr – Mary Jones a Rhiannon Rogers

Ebeneser, Dolgellau

GWELLA
Rydym yn hynod falch o glywed bod Carys Humphreys, Penbryn Glas, yn dal i wella ac wedi cael mynd adre o'r ysbyty erbyn hyn.

GARDD Y CAPEL
Mae'r ardd o flaen y capel yn hynod o dlws eleni. Diolchwn i Mr Hugh Humphreys, Mr Dai Morgan a Mr Wyn Meredith am eu gofal.

Gohebydd – Gwyneth Meredith

Ebeneser, Trefor, Môn

CROESO
Pleser oedd cael croesawu Mrs Nerys Griffiths atom am y tro cyntaf i arwain ein haddoliad. Mae ei thad, y Parchedig Hugh Pritchard wedi hen arfer dod yma. Braf oedd clywed llais merch ifanc yn y pulpud a gobeithio y cawn ei chwmni eto cyn bo hir.

CYFARFOD PREGETHU
Eleni eto cawsom gyfarfod pregethu bendithiol a'r tro hwn y Parchedig Christopher Prew oedd yng ngofal yr oedfa. Er nad oedd wedi bod yng nghapel Trefor o'r blaen nid yw'r ardal yn ddieithr iddo gan iddo dreulio blynyddoedd lawer yn weinidog yn Llangefni. Hyfryd oedd ei glywed eto ar y radio y Sul canlynol ar Oedfa'r Bore. Diolch i'r Diacon Stephen Roe am roi gair o groeso i Mr Prew a ledio rhai o'r emynau.

COLLEDION
Daeth y newydd trist am farwolaeth y Parchedig Tecwyn Roberts a fu'n dod atom i gynnal oedfa am flynyddoedd lawer. Roedd yn ŵr tawel ac yn awyddus iawn i sgwrsio a dod i adnabod pawb. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Bu farw Mr Emrys Williams, yntau wedi bod yma yn bregethwr cynorthwyol flynyddoedd yn ôl a chydymdeimlwn â'i deulu yntau.

Gohebydd: Carys Thomas

Preswylfa, Cyffordd Llandudno

LLONGYFARCHIADAU
Mae Ffion Williams, un o ieuenctid Preswylfa, wedi derbyn Teilyngdod yn ei chwrs Sylfaen Arlunio yng Ngholeg Menai, Bangor. Dymuniadau da iddi ym mis Medi wrth iddi ddechrau Cwrs Tecstilau ym Mhrifysgol De Cymru, Caerdydd. Pob lwc, Ffion.

Gohebydd – Eirian Jones

Os byddwch yn Llandudno yr haf yma, cofiwch fynd i weld arddangosfa Celf a Ffydd, lluniau o Gasgliad Modern yr Eglwys Fethodistaidd. I'w gweld o 25 Mehefin tan 3 Medi yn Eglwys Fethodistaidd St. John, Stryd Mostyn ac Oriel Mostyn, Mercher - Sul, 10.30-4.00 o'r gloch. Mynediad am ddim.

Y Triniti, Pontarddulais

TOSTRWYDD
Rydym yn hapus i glywed y newyddion diweddaraf am **Margaret Bowen**. Ar ôl cael ei symud o ysbyty Treforys i gryfhau ymhellach yn ysbyty lleol Gorseinon yn agos i'w theulu a'i ffrindiau, y mae yn awr gartref. Estynnwn bob dymuniad da ati am wellhad llwyr a buan. Dymuniadau gorau hefyd i **Melville Thomas**, sydd wedi bod dan law llawfeddyg unwaith yn rhagor. Ar ben hyn mae wedi cael ysgytwad i'w law a'i fraich, yn ddigon difrifol i amharu ar ei waith fel parafeddyg. Parhau i ymweld ag Ysbyty Singleton yn Abertawe i gael triniaeth gan arbenigwyr y mae **Mair a Raymond Thomas.** Gobeithio y bydd pethau'n gwella iddynt cyn hir.

CYDYMDEIMLO
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Einir Evans yn ei cholled drist yn ddiweddar o golli chwaer yng nghyfraith sef Margaret Williams – gynt yn nyrs yn y gymuned leol ac yn rhan o gymdeithas glòs y Bont. Rydym yn meddwl amdanynt fel teulu yn arbennig y gŵr John ar golli chwaer.

LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau a dymuniadau da i Aled Thomas, mab Melville Thomas, ar ei benodiad i swydd athro yn Ysgol Gyfun Dŵr y Felin, Castell Nedd. Hefyd llongyfarchiadau mawr i Eleri Thomas, merch hynaf Melville, ar ei llwyddiant yn Wrecsam ar 25 Mai pan enillodd Bencampwriaeth Karate Cymru dan 14 oed.
Estynnwn hefyd ein llongyfarchiadau i Jeremy Miles ar ei lwyddiant, ar 5 Mai eleni, i ddiogelu sedd fel Aelod Cynulliad Llafur dros drigolion Castell Nedd. Cyn iddo symud ymlaen i astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Rhydychen yr oedd Jeremy yn cyfrannu'n rheolaidd i weithgarwch yr Eglwys a'r Ysgol Sul. Dymunwn yn dda iddo gyda'r gwaith heriol sydd o'i flaen draw ym Mae Caerdydd.

CROESAWU'R CADEIRYDD
Roedd yn braf unwaith yn rhagor estyn croeso i Gadeirydd y Synod, y Parchedig Dr. Jennifer Hurd, ar 22 Mai sef Sul Aldersgate. Yn briodol iawn felly cafwyd yn ei phregeth fraslun o hanes John Wesley a thrafodaeth ar dri o'i ddywediadau cyfarwydd.

GWERTHFAWROGIAD A DIOLCH
Mae addoldai Cymraeg pentref Pontarddulais bron i gyd wedi eu lleoli ar yr A48, yr hen briffordd o Gaerdydd i Gaerfyrddin sy'n rhedeg drwy ganol y pentref. Yn ffinio ar y briffordd mae Capel y Babell (y Bedyddwyr). Capel y Triniti (y Wesleaid), Capel Hermon (yr Hen Gorff, bellach dan nawdd Efengylwyr Saesneg), Capel yr Hope (yr Annibynwyr), a'r ddwy Eglwys St. Teilo a St Mihangel (o dan ofal yr Eglwys yng Nghymru). O fewn tafliad carreg mae'r gweddill, Capel y Gopa (yr Hen Gorff), Capel Siloh (yr Annibynwyr, bellach wedi ymuno a symud i Gapel yr Hope), a Chapel y Tabernacl (y Bedyddwyr). Mae'r gymuned leol, gan sylweddoli eu pwysigrwydd yn hanes yr ardal, yn cyfrannu'n hael yn ariannol i gynnal y mynwentydd a'r tiroedd o amgylch yr adeiladau. **Rydym ni yn y Triniti yn gwerthfawrogi'r cymorth yma ac yn diolch iddynt am eu gweledigaeth.**

Addoldy arall tipyn hŷn na'r un o'r uchod yw Eglwys Llandeilo Talybont, yr Hen Eglwys fel y'i hadnabyddir gan frodorion Pontarddulais. Roedd yr Eglwys un amser yn sefyll yn unigedd morfa'r Llwchwr, o fewn cyrraedd llanw'r afon, ac yn aml gwelwyd hi wedi ei hamgylchynu gan ddŵr - darlun unigryw i'r nifer ohonom sy'n cofio! Ar ôl ei dymchwel, rhestrwyd y cerrig a'u cludo i Sain Ffagan, lle saif yr eglwys yn gadarn unwaith eto. Mae'n sefyll bellach ar yr un safle a Chapel Penrhiw (yr Undodiaid): y 'confensiynol' wedi dod i gadw golwg ar yr 'anghonfensiynol'. Eto mae 'na ddolen gyswllt yma: yr Hen Eglwys ar lan afon Llwchwr, y ffin rhwng dwy Sir, Morgannwg a Chaerfyrddin, a Chapel Penrhiw ar lan afon Bargod, y ffin rhwng dau blwyf, Penboyr a Llangeler.

Mae'r ddau adeilad unigryw hyn yn werth eu gweld yn Sain Ffagan, Amgueddfa Werin Cymru.

Shiloh, Tregarth

GWASANAETH TEULU CYMORTH CRISTNOGOL
Bore Sul, Mai 16, bu'r plant a'r ieuenctid yn dathlu a chofio yn arbennig am Wythnos Cymorth Cristnogol. Gwnaeth

Myfi

Gwenno, Iestyn, Huw, Ifan, Gwenlli, Nel a Myfi eu gwaith yn ardderchog. Cafwyd sgwrs amserol gyda defnydd o PowerPoint, gan Sioned Williams o Fethesda. Pwysleisiodd bwysigrwydd cael cyfle i gyfrannu i helpu eraill. Gwnaed casgliad ar gyfer yr achos a bu Myfi Celyn yn gwerthu teisennau roedd wedi'u paratoi gyda'r elw at gronfa leol Cymorth Cristnogol yn Nyffryn Ogwen. Diolch i'r rhieni am drefnu'r gwasanaeth a diolch yn arbennig i Sioned. Fel Eglwys dymunwn yn dda iddi pan fydd yn mynd i Gaerdydd ym mis Medi i gael ei hyfforddi i fod yn weinidog.

DAMWAIN
Da yw gweld Wynne Roberts, Bryn Difyr, wedi gwella ac yn ôl yn ei sedd wedi'r ddamwain a gafodd yn ddiweddar ym Mhorthmadog.

PROFEDIGAETH
Cydymdeimlwn â Ffion Rowlinson a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw ewythr Ffion, sef Glyn Jones, Corwen (gynt o Lawrcilan, Llandrillo), brawd y ddiweddar Eurwen Pennant Lewis.

DATHLU PRIODAS
Dymuniadau gorau i Dylan Griffiths, mab Anwen a'r diweddar Tom Griffiths, Cysgod y Parc, Sling, a Lucy Boyle ar eu priodas yn Swydd Rhydychen ar Fehefin 5ed.

CEGIN NEWYDD
Mae Festri Capel Shiloh wedi cael cegin newydd sbon danlli ac yn ddigon o sioe. Cliriwyd yr hen gegin a chafodd yr ystafell gôt o baent. Gosodwyd gorchudd newydd ar y llawr ac yna daeth yr adeiladwyr a gosod cegin newydd sydd yn werth ei gweld. Dewch atom am baned!

LLONGYFARCHIADAU
Daeth llwyddiant i frawd a chwaer yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint eleni. Roedd Ifan Rhys Cooke yn aelod o Fand Jazz Ysgol Tryfan a enillodd y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod i Fandiau Ysgolion Uwchradd. Roedd ei chwaer Myfi Celyn Cooke yn aelod o Gyflwyniad Dramatig Ysgol y Garnedd a enillodd y gystadleuaeth i Ysgolion Cynradd.

Gohebydd – Gwenda Davies

Ardal Bathafarn

CYMANFA ARDAL BATHAFARN
Ar yr ail Sul ym mis Mai, daeth aelodau capeli'r Ardal at ei gilydd i Fathafarn dan arweiniad hyfryd Eirlys Dwyryd. Roedd y defosiwn yng ngofal Olwen Griffiths, gyda darlleniadau gan Marian, Corwen, ac Enid, Glyndyfrdwy. Arweinydd y gweithgareddau oedd Elizabeth a'r cyfeilydd oedd Rhian. Yna te blasus wedi ei baratoi yn ôl yr arfer gan Mairwen Mosford gyda chymorth chwiorydd Capel Bathafarn. Diolch i Marian, ysgrifennydd brwdfrydig yr ŵyl, am ei hymroddiad arferol.

OEDFA CYMORTH CRISTNOGOL
Daeth cyfeillion o gapeli ac eglwysi Rhuthun ynghyd i gynnal Oedfa Cymorth Cristnogol ddwyieithog; hyfryd oedd gweld y capel bron yn llawn. Cafwyd sgwrs bwrpasol gan y Parchedig

Martin Evans-Jones a chymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o holl eglwysi'r dref. Diolch i Dafydd am argraffu rhaglenni ar gyfer y gwasanaeth arbennig hwn.

TE PRYNHAWN
Ar Fai 23ain cawsom de prynhawn blasus yng ngofal Olwen Griffiths. Roedd yn gyfle i gymdeithasu'n braf. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r rhai a helpodd i osod y byrddau, paratoi'r te, trefnu raffl a gofalu am y drws. Gwnaethpwyd elw da at y capel a bu'n brynhawn difyr iawn.

CYDYMDEIMLO
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Meta, Alison, Roger a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a brawd annwyl sef Trevor Beech, Tyddyn Pentre. Roedd Trevor yn perthyn i deulu adnabyddus Tŷ Mawr, Bryneglwys. Treuliodd bum deg wyth o flynyddoedd ym Mhentrecelyn, yn amaethwr diwyd wrth ei alwedigaeth. Daeth tyrfa i dalu'r gymwynas olaf iddo yng nghapel Bathafarn o dan arweiniad y Parchedig Martin Evans Jones. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchedig Morus P. Morris a darllenwyd teyrnged y teulu gan Elizabeth. Bendith fo arnynt fel teulu.

ADDOLIAD
Hyfryd yw cael cwmni Mrs Cissie Hughes o Groesoswallt yn oedfaon Bathafarn, hithau wedi dod i fyw i Abbeyfield. Pob hapusrwydd iddi yn ei chynefin newydd. Diolchwn i'r Parchedigion Martin Evans Jones a Jennie Hurd am eu gwasanaeth a hefyd i'r Diacon Stephen Roe, Llinos Mary Jones a Siân Williams. Bu Elizabeth yn cynnal oedfa Gymun yng Nglyndyfrdwy; hyfryd oedd gweld y capel wedi'i beintio'n hardd.

DYMUNIADAU GORAU
Meddyliwn am bawb sydd mewn gwaeledd. Anfonwn ein cofion anwylaf at Ifor Parry yng Nghartref Gofal Plas Gwyn ac at ei briod Menna, hithau wedi treulio cyfnod o orffwys yn Ysbyty Wrecsam. Rydym yn falch iawn fod Gretta Davies yn cryfhau ar ôl cyfnodau yn yr ysbyty.

Gohebydd – Elizabeth Jones

Saron, Bethel, Arfon

DYMUNIADAU GORAU
Rydym yn falch iawn o weld Mrs Beryl Parry a Mrs Gwenan Doy yn ôl efo ni yn y capel. Bu'r ddwy ffyddlon yma, y nain a'r wyres, yn treulio sbel o amser yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Braf yw gweld y ddwy wedi gwella mor dda – daliwch ati.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Katie Williams, priod ein gweinidog y Parchedig Gwynfor Williams. Deallwn iddi syrthio ar stepiau concrit llwybr yr ardd yn ddiweddar a chael anafiadau digon brwnt. Dymuniadau da i chi a brysiwch wella, Mrs Williams.

Mae'n dymuniadau da ni hefyd fel Eglwys yn mynd at Iona Jones, Rhiwlas, sydd wedi bod yn derbyn triniaeth. Mae Iona yn chwaer i Morlais Williams, un o'n haelodau ffyddlon yn Saron. Gobeithio y cewch chi adferiad iechyd llwyr a buan, Iona.

Gohebydd – Robin Jones

Ebeneser, Caernarfon

ER COF ANNWYL
Yn ddiweddar casglwyd arian sylweddol gan gyfeillion y diweddar Merfyn Jones er cof am ei fywyd a'r gwaith a gyflawnodd fel bugail ei eglwys a'i gymdeithas. Yn deillio o'r weithred garedig hon derbyniasom fel eglwys rodd o £900 gan ei briod Mary Christine Jones. Gwerthfawrogwn ei charedigrwydd gan ddwyn i gof anhwylder ei phriod. Gŵr di-lol, di-stŵr, digyffro.

DYMUNIADAU GORAU
Anfonwn ein cofion fel eglwys at Joe Williams, Tŷ Capel, a gafodd lawdriniaeth yn ddiweddar ac at ei briod Nel sy'n disgwyl rhagor o driniaeth i'w phen-glin yn y dyfodol agos. Mae ein meddyliau hefyd gyda'r aelodau eraill o'r eglwys sydd yn gaeth i'w cartrefi.

LLONGYFARCHIADAU
Llongyfarchiadau i'r plant a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd eleni: Branwen, wyres Edward a June Aubrey, un o'r pedwarawd a enillodd y wobr gyntaf i ensemble offerynnol, Blwyddyn 6 ac iau; Osian Trefor Hughes, ŵyr Ronnie a Gwenda Hughes a enillodd y drydedd wobr ar yr unawd i fechgyn o dan 12 oed; Catrin, sydd yn aelod o Ysgol Sul Ebeneser ac yn wyres i Buddug Jones – aelod o fand pres llwyddiannus Ysgol Bontnewydd.

CROESAWU FFRINDIAU NEWYDD
Mae prysurdeb a chyffro a phleser yn amlwg ymysg aelodau Ebeneser y dyddiau hyn gan ein bod yn cael cyfle amhrisiadwy i groesawu Americanwyr i'n plith. Grwpiau o ryw 25 o ymwelwyr ydynt, sydd ar fordaith o amgylch Ynysoedd Prydain. Un o'r porthladdoedd y maent yn galw ynddo yw Caergybi ac oddi yno y deuant i ymweld â Chaernarfon. Mae Eglwys Ebeneser yn un o'r dewis o bedwar man y cânt ymweld â hwy yn y dref. Cyfle i aelodau Ebeneser gael eistedd wrth y byrddau i fwynhau eu cwmni - ar y fwydlen cawn gawl cennin, teisen gri a bara brith. Yna cyfle i wrando ar Morwenna Roberts, June Aubrey a John Howard Hughes yn ein swyno ar gân. Mae'r fenter yn parhau o fis Mai tan fis Medi.

Gohebydd – Branwen L. Edwards

Seion, Pwllheli

SUL Y MAER
Ar 3 Gorffennaf fe gynhaliwyd gwasanaeth arbennig Sul y Maer yn Seion o dan arweiniad y Parchedig Gwyn Thomas. Un o aelodau Seion, y Cynghorydd Henry Rees Williams, yw maer Pwllheli eleni a'r faeres yw ei gymar y Fs Amanda Coram. Yr organydd oedd Osian Ellis a chafwyd unawd ganddo yn ogystal sef Salm 23. Daeth plant Ysgol Cymerau hefyd i gymryd rhan yn y gwasanaeth a chawsom alaw ar y delyn gan Carys Gwenllian. Dymunwn fel eglwys bob bendith i'r maer wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau.

Gohebydd – Elizabeth Owen

Ffrindiau Newydd

Y BWLCH

gan Angharad Tomos

Yn ddiweddar, bu perthynas i mi farw yn gwbl annisgwyl, yr ail brofedigaeth i'n teulu ni eleni. Mae pob colled yn brifo, ond mae'r rhai annisgwyl fel cyllell. Gall rhai annwyl ein gadael mewn dyddiau neu ychydig wythnosau, a theimlwn na fydd y byd byth yr un fath eto.

P'un ai os credwn mewn nefoedd ai peidio, mae'r gofod y maent yn ei adael ar

y ddaear yn ofod real iawn, a fedrwn ni wneud dim i'w lenwi. Gall beri inni deimlo yn ddiymadferth ddychrynllyd. Mi allwn alaru, bod yn gwmni, ceisio codi calon, dal ati, ond ddydd ar ôl dydd, mae'r baich yn ein hwynebu – sut mae delio efo'u habsenoldeb heddiw?

Mae yna drefn bendant i'w dilyn pan fo pobl yn marw. Cewch lyfryn gan yr ysbyty a chyfarwyddiadau trefnu angladd. Daw llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau efo rhestr o bwy i'w hysbysu. Mae gan y banc ei ddull ei hun o gau cyfrif, mi wnaiff cyfreithiwr eich rhoi ar ben ffordd. Rhaid gwneud hyn yn yr wythnosau cynnar, ac fe ymddengys mai'r cyfan a wnewch yw dileu enw eich cymar/perthynas/ffrind oddi ar wyneb y ddaear. Does ganddo fo neu hi ddim enw bellach, 'yr ymadawedig' ydyw.

Os llwyddwch i wneud hyn i gyd heb dorri i lawr o flaen pobl, mae'n bluen yn eich het, ond mae'n dal i weld fel y peth rong i'w wneud. Cwbl rydych yn ei wneud yw dileu yr enw pwysig oddi ar bopeth swyddogol. Mae'r person sydd yn dal mor fyw i chi yn cael ei rwbio allan o fod, dro ar ôl tro ar ôl tro. Ac mae ffurflenni a chyfrifon a datganiadau yn bethau mor afresymol o oeraidd. Wedi gwneud hyn i gyd, does dim llyfryn, dim rhestr, dim cyfarwyddiadau sut i ddelio efo'r Absenoldeb Mawr. Mae disgwyl i chi 'ddod dros y brofedigaeth' yn raddol, a dod yn ôl yn berson normal, hapus.

Os oes arnoch eisiau
creu heddwch, waeth i chi heb
â siarad â'ch ffrindiau.
Siaradwch â'ch gelynion.

Moshe Dayan (1915 – 1981)

Wn i ddim amdanoch chi, ond dwi'n meddwl fod y genhedlaeth o'n blaenau yn gwneud gwell job o alaru. Roeddent yn delio yn well â marwolaeth gan dderbyn ei fod yn rhan real iawn o fywyd. Roedd gwisgo dillad tywyll am gyfnod penodol yn arwydd nad oedd pethau yn iawn, fod y teulu yn galaru, a bod cydnabyddiaeth yn cael ei rhoi i'r golled.

Falle nad ydw i am fynd yn ôl i wisgo du, ond dwi eisiau i bobl beidio disgwyl rhyw fasg o hapusrwydd ffals gen i ychwaith. Dwi'n falch fy mod yn byw mewn cymuned lle mae pobl yn dal i allu cydymdeimlo. Does dim ots ganddynt sôn am y person ddaru farw, holi sut mae pethau, a pharhau i ddangos cydymdeimlad fisoedd yn ddiweddarach. Maent hwythau hefyd yn ymwybodol o'r twll adawyd ar ôl.

Pethau sy'n codi'r galon? Cwmni plant, mae'n rhaid i mi gyfaddef. Siocled, sgyrsiau uwchben paneidiau, edrych drwy hen luniau, clywed arogleuon a chaneuon ddaru chi rannu efo anwyliaid – mae'r rhain i gyd yn help. Ond mae cwmni plant yn rhagori ar hyn i gyd.

Maent yn rhannu cariad syml, ac maent yn eich gorfodi i edrych i'r dyfodol. Maent yn dangos i ni fod daioni yn parhau. Bendith arnynt.

Llythyr o'r Gynhadledd Fethodistaidd

Llundain, 4 Gorffennaf 2016

Ar awr argyfyngus yn hanes y Deyrnas Unedig, a'r Blaid Dorïaidd a Llafur yn malu eu hunain yn rhacs o ganlyniad i'r refferendwm, cynhelir ein Cynhadledd eleni yng nghanol y brifddinas. Saif y Senedd ar un ochr a'r ochr arall y mae Neuadd Ganolog Westminster, ein heglwys fawreddog a'n man cyfarfod. Ceir ymdeimlad o fod yng nghanol pethau ar awr dyngedfennol. Y tu allan, protest i'w chlywed o blaid aros yn Ewrop; yn yr Abaty cyfagos, gwasanaeth yn cael ei gynnal drwy gydol y nos i gofio am golledion arswydus y Somme. Yma fe geisiwn ninnau fel Cristnogion weithio allan sut mae bod yn gymuned sanctaidd oddi mewn i gymdeithas anwaraidd.

Beth yw ein dealltwriaeth o bwrpas ein heglwys yn y byd? Beth yw arweiniad ein Harglwydd i ni?

Yr araith fwyaf treiddgar a glywsom hyd yn hyn oedd un yr Is-lywydd newydd, Rachel Lampard, gwraig ifanc â thri o blant, sydd yn gweithio dros yr Eglwys Fethodistaidd ym maes cyfiawnder cymdeithasol. Dechreuodd gyda geiriau proffwydol Amos: "Ni allaf ddioddef eich cyfarfodydd crefyddol, medd yr Arglwydd. Cyfiawnder dwi'n moy'n, moroedd ohono. Dyna'r oll rwy'n moy'n".

Soniodd am y 3,700 o ffoaduriaid a foddwyd eleni yn ceisio dianc dros Fôr y Canoldir o alanastr Syria; pobl yn ceisio lloches yn ein plith ac yn canfod fod y drws ynghau. Bob 90 eiliad mae plentyn yn marw oherwydd diffyg dŵr glân i'w yfed. Yn sgil canlyniad y refferendwm mae hiliaeth tuag at fewnfudwyr wedi dod yn fwy amlwg ar y bws neu'r trên.

Beth ddylem fel Methodistiaid ei wneud? Mae gweithredu tros y dieithryn a'r tlodion yn rhan o'n hetifeddiaeth. Ein DNA yw bwrw iddi. Gwelwn beth sydd o'i le a gweithredwn. Ond a yw hyn yn wir am ein heglwys fach ni yng Nghymru heddiw?

Beth mae'n ei olygu i ymdrechu dros gyfiawnder Duw mewn gwleidyddiaeth heddiw? Mae ein llywodraeth wedi gwneud pobl dlawd yn broblem. Nhw fel unigolion sydd yn cael y bai. Maent yn bla mewn cymdeithas – y tlodion *anhaeddiannol* fel y'u gelwir. Ond mae cymysgfa o achosion pam mae teulu yn disgyn i dlodi. Efallai y bydd ar un o'r plant angen esgidiau i fynd i'r ysgol, ac, yn sydyn, does dim arian i dalu'r rhent. Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yn dod i'n banciau bwyd yn llawn cywilydd o orfod dod. Ond dywedodd Iesu mai yn wyneb y tlawd y gwelwn ei wyneb ef. Sut, felly, y mae eu helpu? Rhaid gofyn i ddechrau: *Pam mae cymaint o bobl yn cysgu ar y strydoedd yn ein dinasoedd heddiw? Pam mae cymaint yn unig? Pam nad oes gan bobl ifanc unlle i fynd gyda'r nos?*

Mae cymaint o bethau anghyfiawn yn digwydd. Rhaid i ni ddysgu nid yn unig i lefaru dros y rhai na allant siarad drostynt eu hunain ond, yn fwy allweddol, rhaid i ni eu galluogi nhw i lefaru eu hunain. Os byddwn yn eglwys lle mae cyfiawnder yn ffrydio fel afon, yna bydd yr Arglwydd Iesu i'w glywed unwaith eto yng nghanol ein cymdeithas.

Cychwyn da i'n Cynhadledd eleni. Dyna'r oll am y tro.

Cofion gorau,
Martin Evans-Jones

O Arglwydd, galw eto

gan y Parchedig J. Bryn Jones

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae pob enwad, o leiaf yng Nghymru, gan gynnwys y Catholigion, yn adrodd am leihad yn nifer y rhai sy'n cyflwyno eu hunain fel ymgeiswyr am y weinidogaeth, a pheth digon naturiol ydy gofyn beth yw'r rheswm am hynny? Pan gefais fy nerbyn i weinidogaeth yr Eglwys Fethodistaidd, roedd digon o ymgeiswyr o'i gymharu â'r nifer oedd yn ymgeisio rai blynyddoedd o fy mlaen. Ond mae'n wahanol heddiw. Pam, tybed? Ni sylwais chwaith i fater mor bwysig â hwn ymddangos ar agenda'r Synodau; cywirwch fi os wyf yn anghywir. Ond prysuraf i ddweud bod gennym ymgeisydd eleni sydd erbyn hyn wedi cael ei derbyn ac wedi cychwyn ar ei chwrs yng Ngholeg Queen's Foundation, Birmingham. Yno hefyd y bu ein Cadeirydd, y Parch. Ddr. Jennie Hurd. Aeth eraill, fel minnau, i Goleg Handsworth; byddem yn honni bryd hynny fod Coleg Handsworth a'i thiwtoriaid ymhlith y gorau yn y Cyfundeb! Diolch a llongyfarchiadau i Siân Williams o Ardal Glannau Maelor am ymateb i'r alwad.

Ar wahân i hynny, llwm iawn yw'r rhagolygon o weld newid yn y sefyllfa ac o ganlyniad bu'n rhaid addasu i gyfarfod â gofynion yr Ardaloedd yng Nghylchdaith Cymru – er enghraifft trwy awdurdodi pregethwyr lleyg i weinyddu'r Cymun Bendigaid. Diolchwn i'r Gynhadledd am roi sêl bendith ar y trefniant; hyd y gwn i, mae'r cynllun yn gweithio'n iawn. Mae'n werth nodi yn ogystal fod rhai o'r gweinidogion a'r diaconiaid a ddaeth atom o Loegr wedi llwyddo'n rhyfeddol o dda i wasanaethu yn y rhan hon o'r Cyfundeb.

Oherwydd yr un math o brinder, daeth amryw o offeiriaid o Eglwys Loegr i'r Eglwys yng Nghymru a gwasanaethu mewn plwyfi lle disgwylir iddynt gynnal y gwasanaethau yn Gymraeg yn ôl yr angen, er nad oes sicrwydd bod hynny'n digwydd ym mhobman. Y peth diweddaraf a glywais yw bod yr Eglwys Gatholig yn gorfod ystyried cau eglwysi mewn o leiaf rai rhannau o Gymru; mae hynny'n syndod i mi oherwydd yr argraff sydd gennyf yw bod Catholigion yn ffyddlon i'w heglwysi a'u gwasanaethau.

Mae gennyf frith atgof bod y Cyfundeb flynyddoedd yn ôl, wedi gwyntyllu'r syniad o gael caniatâd prifathrawon a phwyllgorau addysg i rai o'n gweinidogion fynd i sgwrsio â disgyblion y dosbarthiadau hynaf. Pe gellid gwneud hynny, pwy a ŵyr beth fyddai Iesu yn ei wneud dan weinidogaeth yr Ysbryd Glân. Mae emyn William Cowper (C.Ff. 66) a droswyd gan y Dr. Lewis Edwards, yng nghwpled y bennill gyntaf, yn ei ddweud yn llawer gwell nag y medrwn i:

Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr
Yn dwyn ei waith i ben.

A bydded i Dduw, ffynhonnell gobaith, eich llenwi â phob llawenydd a thangnefedd wrth ichwi arfer eich ffydd, nes eich bod, trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn gorlifo â gobaith. Rhufeiniaid 15: 13

CYMWYNASWYR

gan Gwilym Dafydd

Dyma lun o fy nhad, y Parchedig Ddr Dafydd G Davies, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, sy'n agosáu at ei ben-blwydd yn 94, yn sgwrsio ag Arfon Jones, sydd hefyd yn byw yn yr un ardal. Wedi blynyddoedd maith o ymchwilio, cyfieithu ac aralleirio, fe gwblhaodd Arfon ei waith ar beibl.net, a gyhoeddwyd ychydig cyn y Nadolig y llynedd. Fe welir bod Arfon yn dal copi o beibl.net a bod copi o'r Beibl Cymraeg Newydd (BCN), 1988, gan fy nhad. Yn y llun arall, ei gopi personol o'r Testament Newydd a gyhoeddwyd yn 1975 sydd ganddo. Ar hwnnw mae ei lofnod ef a llofnodion y saith cyfieithydd arall sef Owen E Evans, Isaac Thomas, Gwilym ap Robert, J I Daniel, D R Griffiths, S Ifor Enoch a John Llanelwy.



Dau yn unig ohonynt sydd bellach ar dir y byw sef fy nhad a'r Parchedig Ddr Owen E Evans.

Mae fy nhad bellach bron yn ddall ond y dyddiau hyn caiff fodd i fyw wrth fy mod yn darllen ar lafar ysgrif y dydd iddo o'r llyfr gwerthfawr a hynod ddarllenadwy *Merêd: Dyn ar Dân*. Dechreuodd y ddau ohonynt fel myfyrwyr diwinyddol ym Mhrifysgol Bangor ym mis Medi 1941. Ond stori arall yw honno.

TAITH OLAU LEUAD

Ar nos Sadwrn, 21 Mai, noson olau leuad braf, cerddodd 148 o bobl ddeng milltir o bentref Llanrhaeadr ym Mochnant am Gymdu a Maengwynedd ac yn ôl, er budd Nyrsys Macmillan. Roedd y daith arbennig hon er cof am y diweddar Barchedig Raymond Hughes. Gwaetha'r modd, ni allai ei weddw, Sue, fod yno am ei bod yn yr ysbyty yn cael llawdriniaeth ond croesawyd pawb gan Karen Wynne, merch Raymond, a ddiolchodd i bawb am eu cefnogaeth. Hyfryd oedd gweld Mrs. Nancy Hughes, ei fam, yn torri'r rhuban i gychwyn y daith. Ymysg y cerddwyr roedd Tom Ellis, yr hynaf i gymryd rhan. Cwblhaodd Tom y daith mewn 2 awr 35 munud gan godi £530 i'r elusen. Da oedd gweld trigolion Llanrhaeadr yn cydweithio mor wych gyda'i gilydd i wneud y noson mor llwyddiannus.

Planhigion y Beibl

gan W. Arvon Roberts

86. Tail Colomen
(Ornithogalum umbellatum)

Yna bu newyn mawr yn Samaria, a'r gwarchae mor dyn nes bod pen asyn yn costio pedwar ugain sicl o arian, a chwarter pwys o dail colomen bum sicl.
2 Brenhinoedd 6:25

Tail Colomen

Disgrifiad real iawn a geir yma o warchae Samaria. Bwlb blodeuyn bach gwyn tlws oedd y tail colomen, a dyfai'n helaeth yn nhymor y gwanwyn yn y Wlad Sanctaidd. O'i gyfieithu'n llythrennol, ystyr rhan gyntaf enw Lladin y planhigyn yw "llaeth aderyn". O edrych ar y planhigyn o bellter, mae'r blodau'n ymddangos yn debyg i dail colomen a dyna, mae'n debyg, sut y cafodd yr enw. Fe'i hadwaenir hefyd fel Seren Bethlehem ac mae'n perthyn i deulu'r lili. Mae ei goes yn cyrraedd uchder o 10 centimetr a'i ddail yn hir. Ar ei fwlb y rhoddwyd gwerth mewn cyfnod o galedi a phrinder bwyd. O'i godi o'r ddaear a'i sychu, gellid ei fwyta ar ôl ei rostio, neu ei falu'n flawd a'i gymysgu i wneud bara. Dywed y ffisigwr Dioscorides (m. 90OC) fod y bwlb yn cael ei sychu a'i ychwanegu at flawd i wneud cacennau tenau. Byddai'n ddrudfawr ar adeg o newyn.

Cred rhai esbonwyr mai tail colomen ydoedd yn llythrennol a bod y bobl wedi gostwng i'r fath gyfyngder fel y byddai'n rhaid iddynt fwyta'r fath ddefnyddiau ffiaidd. Dywedir bod y tlawd yn ystod y newyn yn Lloegr yn y flwyddyn 1316 mewn gwirionedd wedi bwyta tail colomen.

7. Twrpant neu Terebinth
(Pistacia terebinthus)

Estynnais i fy nghanghennau fel terebinth, canghennau llwythog o ogoniant a gras oedd fy rhai i.
Ecclesiasticus 24: 16

Ystyr y gair Hebraeg, o'i gyfieithu'n llythrennol, yw "cryf", felly heb unrhyw amheuaeth mae'n cyfeirio at goeden gadarn. Nid y dderwen fytholwyrdd mohoni, oherwydd ceir cyfeiriad ar wahân at honno yn Llyfr Eseia "...fel derwen neu dwrpant fe'i teflir ymaith, fel boncyff o'r uchelfa..." (Eseia 6:13). Nid yw'r dderwen yn goeden dal ond mae'n un sy'n ymledu, gyda boncyff a changhennau trwchus iddi. Mae'r pren yn galed a gwyn, a'i ddail yn ddigon tew i daflu cysgod trwchus iawn. Y gred yw mai hon oedd y goeden yr eisteddodd angel yr Arglwydd arni a siarad â Gideon oddi tani: "Daeth angel yr Arglwydd ac eistedd dan y dderwen yn Offra...a dweud wrtho, Y mae'r Arglwydd gyda thi, ŵr dewr." (Barnwyr 6: 11,12). Mae'r goeden yn sefyll ar ei phen ei hun ac nid mewn coedwigoedd. Mae ei dail yn

Twrpant neu Terebinth

wyrdd coporaidd cyfoethog, gydag aeron coch yn hongian yn glystyrau fel cyrens. Wrth dorri'r rhisgl bydd y twrpant yn llifo allan: mae iddo berarogl dymunol, tebyg i'r siasmin, a'i flas yn fwyn. Wrth ei ddatguddio i'r aer, mae'n caledu gan ffurfio glud tryloyw. Yn Llyfr Samuel ceir cyfeiriad at Ddyffryn Terebinth lle y gwersyllodd Israel ac y lladdwyd Goliath gan Dafydd.

88. Thus
(Boswellia sacra)

A phan welsant y seren, yr oeddent yn llawen dros ben. Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr.
Mathew 2: 10, 11

Thus

Roedd y doethion o'r Dwyrain wedi teithio am fisoedd lawer i gyrraedd Jerwsalem. Yno ymholasant, gan ddweud, "Ble mae'r hwn a anwyd i fod yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli." Roeddent wedi dod â thair anrheg werthfawr: aur, yn arwydd o frenhiniaeth; thus i nodi sancteiddrwydd, a myrr i arwyddo'r dioddefaint y byddai'r baban newydd anedig yn ei oddef yn ei fywyd ar y ddaear. Mae'r goeden thus yn tyfu ym mynyddoedd yr Himalaya, gogledd Arabia a dwyrain yr Affrig. Mae'n goeden hardd sydd â dail gwyrdd glân fel y griafolen, ynghyd â blodau pinc tlws, siâp sêr gyda chanolau lemon. Mae'r pren yn drwm, caled a pharhaus ac yn cael ei ddefnyddio at amryw o ddibenion. Ar ddiwedd Chwefror, torrir y rhisgl gan bilio haen denau i ffwrdd. Fis yn ddiweddarach, mae'r broses yn cael ei hailadrodd ac yna mae'r sudd neu'r resin yn llifo allan o'r pren mewnol. Mae hwnnw, ar ol iddo galedu, yn mynd yn frau a disglair a chwerw ei flas, ac mae'n cael ei adnabod fel y resin gorau, neu arogldarth, pan gaiff ei losgi. Fe'i crybwyllir lawer gwaith yn y Beibl mewn perthynas â'r addoliad yn y Deml Sanctaidd; roedd hefyd yn cael ei losgi ar gyfer diheintio pan oedd bwystfilod yn cael eu hoffrymu.

FFRINDIAU BORE OES

Diolch yn fawr i Nesta Lloyd am y llun diddorol yma o rai o blant Cricieth tua chanol y 1940au. Fe'i tynnwyd ar y Maes yng Nghricieth, gyferbyn â Chapel Salem.

O'r chwith i'r dde, rhes gefn: John Lloyd; Miss May Davies (chwaer y Parch. O. Prys Davies) yn dal ei nith Helen (un o deulu Ystumcegid); Mair Evans (un o deulu Idris Cafe, lle bu'r diweddar Barch. O. Maurice Jones yn lletya am dros ddwy flynedd, ganol y 1940au. Efallai mai ef oedd y gweinidog pan dynnwyd y llun.).

Rhes ganol: Ffrind i un o'r plant, o'r Bala; Marian Prys Davies, yn edrych dros ysgwydd ei chwaer, Gwyddfid; Nesta; Jane Ellis; Catherine Evans; Gwyneth Evans (chwaer Mair – eu tad yn gapten llong. Nesta a Gwyneth ymhlith y rhai a dderbyniwyd yn gyflawn aelodau gan y Parch. O.E. Evans); Eryl Jones.

Rhes flaen: Gwyn T. Williams a'i frawd Richard,a fu'n byw yng Nghricieth drwy eu hoes; Maryl Rees (gynt Jones) – adnabyddus i lawer yn Synod Cymru!

Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd

AWST
7 Gwyliau
14 Gwyliau
21 Llanrhaeadr a'r Trallwng
28 Gŵyl Greenbelt

MEDI
4 Morgannwg
11 Ar gael
18 Ceredigion
25 Morgannwg

Gweddïwn am fendith Duw ar ymweliadau'r Cadeirydd ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl







Yn rhifyn Rhagfyr-Ionawr y Gwyliedydd, cawsom beth o hanes taith gerdded arbennig yr oedd y Diacon STEPHEN ROE wedi dechrau arni, i godi arian at waith y Cyngor Methodistaidd Byd-eang. Dyma sgwrs a gafodd y Golygyddion ag ef:

Porth Eilian

G: Diolch am siarad â'r Gwyliedydd am eich taith gerdded ar hyd Llwybr Arfordir Môn, Stephen. Mae'n rhaid eich bod yn adnabod Môn yn eithaf da erbyn hyn!

S: Wel, roeddwn i'n meddwl fy mod i'n gyfarwydd efo'r ynys ar ôl byw yma ers deuddeg mlynedd bron, ond mae popeth yn edrych yn hollol wahanol pan fyddwch yn cerdded a chael amser i oedi ac edrych. Roeddwn i'n gwybod bod gogledd yr ynys yn dra gwahanol i'r de, ond dim ond trwy gerdded y teimlais hyn go iawn.

G: Pa ran o'r daith oedd fwyaf cofiadwy?

S: Y diwrnod wnes i ei fwynhau orau oedd cerdded o Ddulas i Borth Amlwch, yn pasio goleudy Llaneilian. Roedd yn ddiwrnod braf ym mis Mawrth, pan fydd rhywun yn dechrau sylwi ar nerth yr haul ar ôl y gaeaf, yr awyr yn glir a'r golygfeydd dros y môr tua'r Gogarth yn fendigedig, ŵyn bach yn caeau, a welais i yr un adyn byw am ryw ddwy awr rhwng Dulas a Llaneilian.

G: Petai rhywun yn cael gwneud un rhan o'r Llwybr, a dim ond un, pa ran fyddech chi'n ei hawgrymu?

S: Y rhan rhwng Bae Trearddur a Phontrhydybont, oherwydd ei bod mor amrywiol. Mae'n dechrau yng nghanol Bae Trearddur. Cerdded trwy'r pentref, cyn dilyn y llwybr ar hyd y creigiau lle mae bwa i'w weld, a ffurfiwyd gan y môr, a ffynnon Santes Gwenfaen, un o hen lefydd sanctaidd Môn, a hefyd hen wylfan gwylwyr y glannau, gyda golygfa wych ar draws arfordir Môn ac Ynys Cybi, a thros y môr i Ben Llŷn. Mae cyfle wedyn i gerdded ar y tywod, Borthwen a Thraeth Llydan, cyn i'r llwybr droi i mewn i'r tir drwy'r coedwigoedd tawel. Yn olaf, mae'n rhaid cerdded ar ystyllod lle mae'r llwybr yn dilyn ymylon y corsydd a'r afon sy'n gwahanu Ynys Cybi ac Ynys Môn. Ac mae'n rhan gymharol fyr, tua 8 milltir, ac mae caffi neis (Y Gegin Fach) ym Mhontrhydybont pan fyddwch yn aros am y bws yn ôl i Fae Trearddur.

G: Y tro diwethaf, dywedsoch eich bod wedi colli'r ffordd mewn un man. Oedd hi'n weddol hawdd dilyn yr arwyddion, at ei gilydd?

S: Oedd. Ar y cyfan mae'r arwyddion yn glir a hawdd eu dilyn. Roedd un lle ychydig yn anodd: yn Rhosneigr mae'n rhaid croesi Afon Crigyll, a doedd hi ddim yn amlwg lle i droi trwy'r twyni i gyrraedd y bont. Collais i dipyn o amser yn chwilio a bu'n rhaid brysio er mwyn dal y bws yn ôl i Aberffraw – dim amser am baned mewn caffi y diwrnod hwnnw!

G: Ydi hyn wedi codi awydd ynoch i wneud teithiau cerdded eraill?

S: Wel, hoffwn i barhau i gerdded yn aml yng nghefn gwlad, i gael awyr iach, ymarfer corff ac amser i feddwl. Un llwybr sydd yn weddol agos at ein cartref newydd yn Nolgellau ydy Taith Mary Jones o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala; hoffwn wneud y daith honno. Yn llawer mwy uchelgeisiol, buasai'n brofiad gwych cael cerdded rhan o lwybr Compostela de Santiago yn Sbaen.

G: A'r cwestiwn mawr: faint o bres wnaethoch chi ei godi?

S: Hyd yma, rydw i wedi codi £100 tuag at 'Wireddu'r Weledigaeth', apêl i sefydlu cronfa er mwyn parhau â gwaith tuag at gyfiawnder cymdeithasol mewn gwledydd tlawd a chynnal cynadleddau er mwyn dod â phobl ifanc at ei gilydd. Mae croeso i unrhyw un sy eisiau cyfrannu anfon siec ataf (yn daladwy i 'Central Finance Board'), Meiriondy, Stryd y Capel, Porthaethwy LL59 5HW. Mi wna i anfon yr arian ymlaen wedyn i Methodist Church House gan ddyfynnu'r rhif angenrheidiol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei dalu i mewn i'r cyfrif cywir.

G: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi a'r teulu pan fyddwch yn symud i Ddolgellau, i wasanaethu De Gwynedd a Glannau Meirion a Dyfi yn y flwyddyn gyfundebol newydd.

S: Diolch yn fawr, rydyn ni'n falch ein bod ni'n aros yng Nghymru ac yn y gwaith Cymraeg, ac rydw i'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio efo chi i gyd yn y dyfodol.

Trearddur

Tudalen y Plant

Iesu eisiau i'r plant ddod ato

Roedd pobl yn dod â'u plant bach at Iesu er mwyn iddo eu cyffwrdd a'u bendithio. Ond roedd y disgyblion yn dweud y drefn wrthyn nhw. Roedd Iesu'n ddig pan welodd nhw'n gwneud hynny. "Gadewch i'r plant bach ddod ata i," meddai wrthyn nhw, "Peidiwch eu rhwystro, am mai rhai fel nhw sy'n derbyn teyrnasiad Duw."
Marc 10: 13-14, beibl.net

Lliwiwch y llun

Iesu'n fodlon gwneud y gwaith mwyaf budr

Cododd oddi wrth y bwrdd, tynnu ei fantell allanol, a rhwymo tywel am ei ganol.

Yna tywalltodd ddŵr i fowlen a dechrau golchi traed ei ddisgyblion, a'u sychu gyda'r tywel oedd am ei ganol.
Ioan 13:4-5, beibl.net

Mae 12 gwahaniaeth rhwng y ddau lun. Beth am gael hyd i bob un ohonynt?